Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Beth i'w wneud os byddaf yn cael gwahoddiad i gyfarfod Grŵp Ymateb Uniongyrchol?




## 1 Cyn y cyfarfod

Dylid darllen hwn ar y cyd â'r briffiad 7 munud: [Pryd mae angen Grŵp Ymateb Uniongyrchol amlasiantaeth ar ddigwyddiad tyngedfennol sy'n cynnwys plentyn?]

Os gofynnwyd i chi fynychu cyfarfod IRG mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud pob ymdrech i fynychu. Os na allwch fod yn bresennol, anfonwch gynrychiolydd yn eich lle. Dylai'r cynrychiolydd fod yn Rheolwr Tîm neu Reolwr Gwasanaeth, neu gyfystyr. Cyn y cyfarfod byddwch yn cael protocol yr IRG [Protocol ar gyfer ymateb uniongyrchol i ddigwyddiadau tyngedfennol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc] sy'n mynd â chi drwy'r broses a beth i'w ddisgwyl yn y cyfarfod.

Mae'r cyfarfodydd IRG yn cael eu cynnull yn gyflym iawn, fel arfer o fewn 2 ddiwrnod i'r digwyddiad tyngedfennol, a byddant yn para tua 2 awr. Wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod, byddwch yn cael enw'r plentyn dan sylw a dyddiad geni.

## 2 Cyn y cyfarfod

Os ydych chi neu'ch asiantaeth wedi gweithio gyda'r plentyn hwn neu unrhyw un yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad, yna **cyn y cyfarfod** dylech nodi'r rhai sydd agosaf at y person ifanc a allai fod wedi'u heffeithio gan y digwyddiad. Er enghraifft, teulu, ffrindiau, cariad, cydweithwyr, aelodaeth clwb fel timau pêl-droed/rygbi, staff, ac unrhyw un arall o bwys.

Dylai asiantaethau unigol ddod i'r cyfarfod yn barod i rannu **enwau, dyddiadau geni a chyfeiriadau'r** holl unigolion sydd wedi'u nodi fel rhai yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad tyngedfennol.

**Cyn y cyfarfod**, mae'n rhaid i gynrychiolwyr o asiantaethau nodi lefel y risg ac anghenion cymorth pob unigolyn a nodi a ydynt yn ymwybodol o unrhyw gymorth sydd eisoes yn cael ei ddarparu.

## 3 Cyn y cyfarfod

Byddai hefyd yn ddefnyddiol darparu genogram i roi eglurder pan fo amgylchiadau teuluol cymhleth.

Dylai cynrychiolwyr o asiantaethau unigol ystyried defnyddio'r canllawiau ynghylch Cylchoedd Bregus yma [Nodi ac ymateb i glystyrau hunanladdiad] er mwyn helpu i nodi'r rhai sydd yn agos yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, ac yn seicolegol at y person ifanc.

## 4 Yn ystod y cyfarfod

Yn ystod y cyfarfod bydd y Cadeirydd yn mynd at bob asiantaeth i ofyn am wybodaeth am y rhai yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad tyngedfennol. Gall hyn gynnwys plant a phobl ifanc a welodd y digwyddiad neu a oedd yn agos at y plentyn dan sylw, aelodau o'r teulu neu weithwyr proffesiynol yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad (Iechyd, yr Heddlu, Addysg ac ati).

Yn ystod y cyfarfod, efallai y bydd rhywun yn gofyn i chi wneud gwaith dilynol y tu allan i'r cyfarfod er mwyn ystyried mesurau ymarfer ychwanegol sydd eu hangen er mwyn rheoli'r risg i'r rhai a nodwyd fel unigolion yr effeithir arnynt. Er enghraifft, cyfarfod strategaeth ar gyfer plentyn sydd wedi'i nodi fel un yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad tyngedfennol.

## 5 Ar ôl y cyfarfod

Ar ôl y cyfarfod IRG cychwynnol efallai y bydd disgwyl i chi fynychu cyfarfod arbennig. Bydd y cyfarfod aml-asiantaeth hwn yn edrych ar yr holl blant yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad tyngedfennol, unrhyw risgiau ac anghenion cymorth a nodwyd a chynlluniau i gefnogi anghenion a nodwyd a lliniaru risgiau. Mae'n rhaid i gynlluniau nodi pwy sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu.

Mae'n bosibl y bydd rhagor o blant sy'n wynebu risg hefyd yn cael eu nodi yn ystod y cyfarfod a bydd angen cynllun gweithredu arnynt. Mae'n bwysig hefyd, os nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach, bod y rhesymau dros hyn yn cael eu cofnodi'n glir.

Ar ôl yr IRG cychwynnol a'r cyfarfod arbennig, mae'n debygol y bydd o leiaf un cyfarfod adolygu IRG, yn ddiweddarach. Cynhelir y cyfarfodydd IRG adolygu hyn i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn ystod y cyfarfodydd cychwynnol wedi'u cwblhau a bod yr anghenion cymorth/risgiau a nodwyd wedi'u rheoli.

## 6 Enghreifftiau

Isod mae rhai enghreifftiau o bryd mae IRG wedi cael ei gynnull yng Ngwent:

- **Ymdrechion** hunanladdiad lle bydd effaith ehangach ar y gymuned, er enghraifft os oedd y plentyn yn aelod o glwb pêl-droed/rygbi lleol felly roedd ganddo gylch eang o ffrindiau.
- Digwyddiadau o ymdrechion hunanladdiad mewn lleoliadau ysgol, neu yng ngolwg y cyhoedd, megis ar bontydd lle gallai nifer o blant fod wedi gweld y digwyddiad tyngedfennol.

Ymosodiadau Cŵn Angheuol- oherwydd yr effaith ar dystion, ffrindiau, teulu, cymdogion a'r gymuned

## 7 Hunanofal - Rhybudd iechyd

**Ar ddechrau cyfarfod yr IRG, bydd gwybodaeth fanwl yn cael ei rhannu am natur y digwyddiad tyngedfennol a allai beri gofid neu drallod i chi.**
Gall fod yn anodd meddwl a siarad am hyn. Bydd meddwl a siarad am hyn yn effeithio arnom ni i gyd mewn gwahanol ffyrdd, ar adegau gwahanol.
**Mae'n bwysig felly ein bod yn…**

- **Disgwyl i'r trafodaethau gael rhywfaint o effaith – 'ymateb normal i brofiadau annormal'**
- **Ceisiwch gefnogaeth cyn ac ar ôl y cyfarfod gan eich rheolwyr llinell, os oes angen.**
- **Gall marwolaeth sydyn umhlith pobl ifanc effeithio are unrhyw um, mewn unrhyw broffesiwn Am gefnogaeth cysylltwch a 2wish yn** [Professional Support - 2 Wish]

**Am gyngor ac arweiniad pellach ar gyfarfodydd IRG cysylltwch â** gwentsafeguarding@caerphilly.gov.uk